



TGAU

3020U20-1A

DYDD LLUN, 22 EBRILL 2024 – BORE
MONDAY, 22 APRIL 2024 – MORNING

CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2
WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2

PRAWF A (Diwrnod 1)
TEST A (Day 1)

CYFATHREBU AG ERAILL
COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE

COPI'R YMGEISYDD
CANDIDATE'S COPY

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dewiswch UN dasg.

Cewch hyd at 10 munud (a'ch amser estynedig) i baratoi'r dasg hon.

Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.

Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.

INFORMATION FOR CANDIDATES

Choose ONE task.

You have up to 10 minutes' preparation time (plus your additional time allowance).

You may make notes and discuss with your partner/group during this time.

The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.

Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.

**(Trowch y dudalen)
(Turn over)**

NAILL AI

TASG 1

MAE’N BWYSIG CAEL LLAWER O FFRINDIAU



Rydw i’n ffrindiau gyda phawb yn fy nosbarth, ond tri ffrind agos sy gyda fi – Marged, Dion ac Alba. Rydyn ni wedi bod yn ffrindiau ers yr ysgol gynradd. Rydyn ni’n gwneud popeth ’da’n gilydd!

Sioned

Rydw i a grŵp o ffrindiau yn mynd i Wyl Green Man ar ôl TGAU – 6 ohonon ni!

Sophie



**Ffrind gorau fy nhad ydy Colin.
Maen nhw'n ffrindiau ers 38 o
flynyddoedd. Fy ffrind i ydy Bryn a
dw i'n gobeithio bydd Bryn a fi dal
yn ffrindiau gorau ymhen
blynyddoedd.**

Gareth



**Oes rhaid cael
ffrindiau? Dw i'n
hoffi cwmni fy
hunan!
Hari**


**Yn 2021 des i Gymru o Affganistan.
Roeddwn i'n drist. Roeddwn i wedi
gadael fy nghartref a fy ffrindiau.
Nawr dw i wedi gwneud llawer o
ffrindiau newydd sy'n fy helpu i siarad
Cymraeg.
Afsar**

Ble rwyd ti'n gweld dy ffrindiau?

- yn yr ysgol
- yn y clwb chwaraeon
- yn y gwaith
- yn y clwb drama



Beth sy'n gwneud ffrind da?



Rhywun sy'n gwrando




Rhywun sy'n gwmi da



Rhywun sy'n helpu



Rhywun sy'n hwyl



**Mae 'da fi
675 o
ffrindiau ar
Facebook ond
dw i ond yn
'nabod 200!**

**Ond ydyn
nhw'n
ffrindiau 'go
iawn'?**

**Tad-cu yw fy ffrind gorau. Rydyn ni'n
gwneud llawer gyda'n gilydd: ceginio,
pysgota a chwarae golff.
Steffan**

NEU

TASG 2

GWAITH – HAWDD I'W GAEL?

Os ydych chi eisiau swydd dda,
rhaid gweithio'n galed yn yr
ysgol – cael graddau da yn
TGAU ac astudio Lefel A.

Joe

Wyt ti'n
cytuno?

Hoffwn i gael gwaith
rhan-amser ond mae fy rhieni'n
dweud 'Na' achos bod
gyda fi ormod o waith
ysgol. Hoffwn i gael arian
fel fy ffrindiau!


Liam

GWIRFODDOLI



**Gwaith rhan-amser.... gwaith
gwirfoddol ar gyfer y Bac....
gwaith cartref.... Does dim
diwedd ar waith!**

Mari





**AR ÔL TGAU:
gwaith?
dosbarth 6?
coleg?**

**Dw i'n lwcus iawn. Dw i'n byw mewn
tref dwristaidd. Mae llawer o waith
rhan-amser i'w gael yn yr haf a'r
gaeaf. Dw i wedi gweithio mewn caffi,
mewn fan hufen iâ ac arcêd.
Mae'r profiad yn dda hefyd!**

Cai



Bl.11 Gwaith rhan-amser



Does dim llawer o waith yn
fy ardal i ers y pandemig.
Mae fy mrawd a fy chwaer
wedi gadael yr ysgol ond
does dim gwaith gyda nhw!


Trystan

**Y PENWYTHNOS –
AMSER I YMLACIO, NID AMSER I
WEITHIO!**

NEU

TASG 3

TREULIO AMSER YN FY ARDAL



Rydyn ni mor lwcus yn ein hardal ni. Does dim rhaid cael llawer o arian achos mae digon i'w wneud.... traethau.... mynyddoedd.... llwybrau cerdded a beicio.... afonydd i bysgota.... Yr unig beth diflas ydy'r holl dwristiaid yn yr haf – maen nhw'n boen!

Gruff





**GWAITH
CELF NEU
GRAFFITI?**

Does dim arian yn fy ardal i. Mae llawer o ddiweithdra a llawer o fandaliaeth. Rydw i'n gweithio'n galed yn yr ysgol i basio arholiadau TGAU. Felly byddda i'n gallu cael swydd dda mewn ardal arall.

Ceri



**Does dim llawer i bobl
ifanc fy oed i yn yr ardal.
Mae digon o glybiau a
bariau ond rydw i dan
oed. Dw i ddim yn hoffi
chwaraeon o gwbl. Dim
ond sinema a siopau
sydd ar gael.**

Safina

GRŴP GWYRDD

Dwlu ar yr ardal?


Hoffi strydoedd glân?


Dewch i....

SESIWN CODI SBWRIEL

Bore Sadwrn, Mai 11

**Cyfarfod tu allan i Neuadd
y Dref am 10.00 o'r gloch.**





- OES PROBLEMAU YN EICH ARDAL CHI?
- FANDALIAETH
 - PARCIO
 - SBWRIEL
 - YMDDYGIAD POBL IFANC